



Prosiectau Pontio'r Cenedlaethau

Cynllun gwers / gweithgaredd i gyflwyno prosiectau pontio'r cenedlaethau yn eich ysgol. Gallwch ei gyflwyno mewn dosbarthiadau CA2 neu CA3, neu fel gweithgaredd i gynghorau ysgol.

Adnoddau

- Ffilmiau pontio'r cenedlaethau – [Ffilm 1](#), [Ffilm 2](#), [Ffilm 3](#)
- Taflen waith Canllaw Rhagweld [wedi'i chynnwys o dan y cynllun gwers]

Amcanion Dysgu

- Bod y disgyblion yn ystyried ac yn herio stereoteipiau o bobl hŷn a phobl ifanc
- Bod y disgyblion yn ystyried manteision grwpiau sy'n pontio'r cenedlaethau
- Bod y disgyblion yn datblygu cynlluniau ar gyfer grŵp pontio'r cenedlaethau yn eu hysgol eu hunain

Geirfa Allweddol

Stereoteip; Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; Pontio'r Cenedlaethau

Cyflwyniad: Ystyried Stereoteipiau

- Rhannwch y disgyblion yn barau neu'n grwpiau bach. Gofynnwch iddyn nhw **dynnu llun** o berson hŷn sy'n enghraifft o stereoteip. Fel estyniad i hyn gallen nhw nodi'r mathau o eiriau maen nhw'n meddwl sy'n cael eu defnyddio'n nodweddiadol i ddisgrifio person hŷn.
- Cyflwynwch rai o'r lluniau / geiriau hyn i'r dosbarth a'u **trafod**. Beth yw barn y disgyblion am y stereoteipiau hyn? Sut maen nhw'n cymharu â phobl hŷn maen nhw'n eu nabod? Pam mae disgyblion yn meddwl bod y stereoteipiau hyn yn bodoli?

Prif Efen: Gwyllo Ffilmiau

- Rhewch wybod i'r disgyblion fod **Comisiynydd Plant Cymru** a **Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru** wedi cydweithio i greu ffilmiau am brosiectau mewn ysgolion sy'n dod â phobl hŷn a phobl iau at ei gilydd.
- Esboniwch wrth y dosbarth fod y Comisiynydd Plant yn codi llais dros blant a phobl ifanc yng Nghymru er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cael eu hawlau; mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn gwneud yr un peth dros bobl hŷn. Gofynnwch i'r dosbarth **pam** maen nhw'n meddwl bod y ddau Gomisiynydd yn tynnu sylw at brosiectau lle mae pobl hŷn a phobl iau yn cydweithio?
- Dosbarthwch y daflen waith Canllaw Rhagweld (gweler isod) a gofynnwch i'r disgyblion **lenwi'r golofn gyntaf** mewn parau neu grwpiau.
- Dangoswch un neu fwy o'r ffilmiau [dolenni uchod] a gofynnwch i'r disgyblion **lenwi colofnau dau a thri** yn eu Canllaw Rhagweld wrth wyllo ac ar ôl gwneud hynny.
- **Trafodwch** fel grŵp: sut mae syniadau'r disgyblion wedi newid trwy wyllo'r ffilmiau?

Datblygiad: Cynllunio Gweithgaredd


- Gofynnwch i'r disgyblion, mewn parau neu grwpiau bach, **dasgu syniadau** ynghylch sut gallen nhw ddatblygu prosiect pontio'r cenedlaethau yn eu hysgol nhw.
- Anogwch y disgyblion i feddwl yn nhermau: **pwyl; beth; ble** i'w helpu nhw i dasgu syniadau [pwyl fyddai'n mynd i'r grŵp; pa weithgareddau gallen nhw wneud; ble gallen nhw gynnal y cyfarfodydd?]

Sesiwn Lawn: Camau Nesa

- Rhewch adborth ar y syniadau a pharatoi **rhestr** o'r mathau o weithgareddau gallai'r disgyblion hoffi rhoi cynnig arnyn nhw o bosib.
- Fel dosbarth, **pleidleisiwch** dros y gweithgaredd mae'r disgyblion yn fwyaf awyddus i roi cynnig arno.
- NAILL AI: lluniwch restr o **gampau gweithredu** y byddai angen iddyn nhw ddigwydd er cyflawni'r gweithgaredd pontio'r cenedlaethau yma, a dirprwywch y camau gweithredu i'r grŵp, gyda therfyn amser i'r disgyblion gwblhau'r tasgau: e.e. darganfod pa grwpiau pobl hŷn sydd yn yr ardal leol.

- NEU: cytunwch i fwydo syniadau'r disgyblion ynghylch gweithgareddau i mewn i weithgaredd pontio'r cenedlaethau sydd eisoes wedi'i gynllunio.

Awgrymu gwyh: rhannwch eich cynlluniau a'ch camau gweithredu gyda'r Comisiynydd Plant a'r Comisiynydd Pobl Hŷn ar Twitter @complantcymru @talkolderpeople



Taflen Waith y Canllaw Rhagweld

Nod: dysgu am brosiectau sy'n dod â phobl hŷn a phobl ifanc at ei gilydd

Tasg: nodwch **gwir** neu **ddim yn wir** yn y blychau isod

	Cyn gwyllo'r ffilmau rydyn ni'n meddwl bod y gosodiad yma'n:	Ar ôl gwyllo'r ffilmau rydyn ni'n meddwl bod y gosodiad yma'n:	Ein tystiolaeth am hyn yn y ffilm yw:
Byddai ymuno â grŵp oedd yn cynnwys pobl hŷn yn ddiflas .			
Dyw pobl ifanc a phobl hŷn ddim yn hoffi'r un pethau .			
Mae pobl hŷn yn mwynhau bod gyda phobl ifanc.			
Dylai pob person ifanc gael cyfle i ddod i nabod grŵp sy'n cynnwys pobl hŷn.			